

## Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.30 ar 16 TACHWEDD 2016, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.**

Yn bresennol: Yr Athro John Grattan, Is-Ganghellor Dros Dro (Cadeirydd); Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredol); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol); Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); Yr Athro Judy Broady-Preston, Cyfarwyddwr ADP; Yr Athro Neil Glasser, Cyfarwyddwr ADHGS; Yr Athro Mike Gooding, Cyfarwyddwr IBERS; Yr Athro Tim Woods, Cyfarwyddwr IAH; Dr Elin Royles, Cadeirydd Cangen Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC); Yr Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion; Dr Gordon Allison; Dr Guy Baron; Dr Hazel Davey; Dr David Dowell; Dr Gwion Evans; Mr Nigel Hardy; Yr Athro Rhys Jones; Dr Louise Marshall; Dr Jenny Mathers; Yr Athro Robert Meyrick; Dr Ola Olusanya; Dr Rachel Rahman; Mr Tim Davies; Ms Louise Jagger; Mr Rhun Dafydd, Llywydd UMCA; Ms Lauren Marks, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth; a Mr Ryan Myles, Swyddog Addysg Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

Yn gweinyddu: Mrs Kim Broom, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Ms Emma Williams, Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion; a Mrs Nerys Fuller-Love.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Yr Athro Jo Crotty, Cyfarwyddwr ABG; Dr Anwen Jones; Yr Athro Martyn Powell; Dr Simon Rodway; Yr Athro Qiang Shen, Cyfarwyddwr AMFC; Mr Daniel Benham, Cyfarwyddwr Cyllid; a Ms Susan Chambers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol.

### 23. MATERION PERSONOL A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

#### 1. Croeso

Roedd Nerys Fuller-Love yn cynrychioli Cyfarwyddwr Athrofa Busnes a'r Gyfraith yn y cyfarfod ar sail ddibleidlais.

### 24. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

### 25. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL.

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2016 (SEN1617-027).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

### 26. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN1617-028).

NODWYD

1. Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

2. Rheolau a Rheoliadau (2015-16 cofnod 82)

Roedd cynrychiolwyr o'r Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion [AAC] wedi cyfarfod â'r rhai sydd â diddordeb/budd yn hyn ac wedi cytuno i gadw at eiriad cyfredol y rheoliadau yn ymwneud â blwyddyn mewn diwydiant neu flwyddyn dramor.

3. Adroddiad ar y Portffolio Academaidd (cofnod11)

Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai adroddiad llawnach ar y portffolio academaidd yn cael ei roi gerbron y Senedd ymhen amser, ar ôl i'r holl adroddiadau gael eu cynhyrchu gan y Knowledge Partnership (GWEITHREDU: Is-Ganghellor Dros dro).

## **27. GOHEBIAETH**

Nid oedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth nad oedd eisoes wedi'i ddwyn i sylw aelodau'r Senedd.

## **28. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR DROS DRO**

NODWYD

Cafodd pob mater o bwys ei drafod yn ystod diwrnod encil y Senedd a gynhaliwyd yn gynharach.

## **29. FFRAMWAITH RHAGORIAETH ADDYSGU**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1617-028).

NODWYD

1. Yn rhan o'r paratodau ar gyfer cyflwyno Rhan Dau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA), roedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr wedi anfon setiau-data i bob sefydliad yn amlinellu sut yr oeddent yn debygol o berfformio yn Rhan Dau. Erbyn hyn roedd Prifysgol Aberystwyth (PA) wedi arolygu'r data - sydd ar gael i bawb - i sicrhau eu bod yn gywir.
2. Yn ogystal â dadansoddiad data, bydd y naratif a gyflwynir gan brifysgolion yn cael ei ystyried gan aseswyr yr FfRhY er mwyn rhestru'r sefydliadau o ran safon, yn Efydd, Arian ac Aur. Mae PA felly'n ystyried y safle y mae'n debygol o'i gyrraedd, wedi'i seilio ar y data ac ar naratif y cyflwyniad, pe byddai'n dymuno cymryd rhan yn Rhan Dau FfRhY.
3. Er y gall prifysgolion yng Nghymru gymryd rhan yn y ddau ran, ni cheir budd ariannol o wneud hynny. Bydd prifysgolion yn Lloegr yn gallu cynyddu'r ffioedd dysgu £9k yn gyfatebol â chwyddiant - o bosibl heb ddiogelu ffioedd myfyrwyr mewn blynyddoedd mynediad penodol, ar ôl cyflawni Rhan Un.
4. Disgwylir y bydd cyflwyno Rhan Dau yn achosi cythrwfl ac, oherwydd hynny, gellid cyflwyno newidiadau sylweddol mewn blynyddoedd i ddod. Roedd PA felly'n ystyried a ddylai gymryd rhan ai peidio yn Rhan Dau FfRhY pan gaiff ei lansio, neu a ddylid aros

tan i'r drefn gael ei mireinio, ac erbyn hynny'r gobaith yw y bydd sefyllfa'r Brifysgol yn fwy ffafriol.

## PENDERFYNWYD

5. Y dylai Gweithrediaeth Strategol y Brifysgol wneud penderfyniad ynglŷn â Rhan Dau a rhoi gwybod i'r Senedd trwy e-bost ymhen amser (**GWEITHREDU**: Is-Ganghellor Dros Dro).

## 30. CYNLLUN ACADEMAIDD CYFRWNG CYMRAEG

### DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol); a Phennaeth Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg; yn ymgorffori drafft y Cynllun Academaidd Cyfrwng-Cymraeg (SEN1617-030).

### NODWYD

1. Datblygwyd y Cynllun Academaidd Cyfrwng Cymraeg i ategu Cynllun Strategol Integredig y Gymraeg, a gymeradwywyd gan Gyngor y Brifysgol ar 9 Mawrth 2015. Hwn fyddai'r Cynllun Academaidd cyntaf o'i fath mewn prifysgol yng Nghymru, a byddai'n tanlinellu rhan flaenllaw Aberystwyth yn darparu'r profiad myfyriwr cyfrwng Cymraeg gorau yng Nghymru.
2. Mae'r Cynllun drafft yn canolbwyntio ar dri nod strategol:
  1. Darparu addysgu o'r radd flaenaf trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ystod o bynciau, a denu nifer cynyddol o fyfyrwyr i astudio yma trwy gyfrwng y Gymraeg;
  2. Darparu gwasanaethau academaidd ac ategol cynhwysfawr sy'n hyrwyddo'r profiad myfyriwr Cymraeg; a
  3. Cynnal y rhan flaenllaw sydd gan PA mewn ymchwil, ysgolheictod a chysylltiadau allanol trwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Roedd yr ymateb a gafwyd gan rai adrannau academaidd yng nghyswllt datblygu cynllun marchnata ar gyfer darpariaeth Cymraeg yn siomedig. Serch hynny, byddai hyn yn cael ei symud ymlaen yn rhan o strategaeth farchnata newydd y Brifysgol yn gyffredinol.
4. Cafodd y Cynllun Academaidd ei ystyried gan y Bwrdd Academaidd ar 21 Medi 2016 lle'r oedd aelodau wedi gofyn am ragor o ddiwygiadau cyn cyflwyno drafft i'r Senedd. Roedd y ddogfen a anfonwyd at aelodau'r Senedd eisoes wedi'i diwygio'n unol ag adborth y Bwrdd Academaidd.
5. Ar ôl ei gymeradwyo gan y Senedd, y bwriad oedd lansio'r cynllun Academaidd Cyfrwng Cymraeg yn ffurfiol ar 8 Rhagfyr 2016. Atgoffwyd yr aelodau bod y Brifysgol yn cynnal ei Diwrnod Agored Rhithiol ar y dyddiad hwnnw, a'u bod felly'n cael eu hannog i gynnal ymgyrch farchnata i dynnu sylw at gynig cyfrwng Cymraeg y brifysgol yn rhan o'r lansio.

## PENDERFYNWYD

6. Cymeradwyo'r Cynllun Academaidd Cyfrwng Cymraeg arfaethedig, yn amodol ar (**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol):
  1. Ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau i deitlau a strwythurau'r Athrofydd; a

2. Cynnwys cyfeiriadau priodol at y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a drafft y Cyngor Cyllido o strategaeth addysg uwch Cymru .

### 31. DIWRNOD ENCIL Y SENEDD

#### NODWYD

1. Cynhaliodd y Senedd ddiwrnod encil llwyddiannus ar fore'r 16 Tachwedd 2016. Mae crynodeb o'r materion a drafodwyd wedi'i gynnwys yn atodiad i'r cofnodion hyn.
2. Bu'r diwrnod encil yn gyfle i aelodau'r Senedd gael sgwrs fanwl mewn awyrgylch anffurfiol ynglŷn â strategaeth academaidd y sefydliad, gan ganolbwyntio'n benodol ar gynaliadwyedd a'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn y cyswllt hwn.

#### PENDERFYNWYD

3. Y dylai'r gogwyddiadau y cytunwyd arnynt yn y Diwrnod Encil gael eu cadarnhau trwy gyfrwng y penderfyniad canlynol, i'w rannu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol (**GWEITHREDU**: Yr Is-Ganghellor Dros Dro):

*Croesawodd y Senedd y cyflwyniadau manwl a gafwyd yn ystod y diwrnod encil, a chydabod y rhan bwysig sy'n rhaid i'r corff llywodraethu academaidd ei chwarae i hwyluso a sbarduno newid ym Mhrifysgol Aberystwyth, gyda sylw arbennig ar flaenoriaethau strategol denu myfyrwyr, enw da a diogelu'r dyfodol yn yr amgylchedd heriol sydd ohoni.*

*Er mwyn cyfrannu at ddatblygu a chyflenwi'r Cynllun Trawsnewid arfaethedig yn llwyddiannus, penderfynodd y Senedd:*

- *Adolygu dull y Senedd o weithredu er mwyn sicrhau ei fod yn gallu gwneud penderfyniadau amserol ar sail tystiolaeth ar yr adegau mwyaf priodol.*
- *Cefnogi datblygiad strategaethau mwy hirdymor ar gyfer ymchwil, marchnata a denu myfyrwyr sy'n cysylltu'n glir â gwerthoedd, gweledigaeth ac elfennau unigryw'r Brifysgol, gan ddefnyddio doniau ac arbenigedd ein staff, ein myfyrwyr, cyn-fyfrwyr a rhanddeiliaid o faes ehangach.*
- *Sicrhau bod y portffolio academaidd yn ddeniadol a gwahanol, a bod y prosesau sydd eisoes yn eu lle i adolygu ac adnewyddu portffolio yn syml ac ystwyth.*
- *Annog cydweithwyr o bob rhan o'r brifysgol i weithredu er mwyn cyflawni'r newidiadau angenrheidiol, gan ddisgwyl yn arbennig i gydweithwyr academaidd wneud y mwyaf o'u galluoedd unigol trwy'r Cynllun Cyfraniad Effeithiol.*

*Ymrwymodd yr aelodau i'r swyddogaeth bwysig sydd ganddynt fel cynrychiolwyr y gwahanol etholaethau ar y corff llywodraethu academaidd, trwy ymgynghori â chydweithwyr, sbarduno newidiadau a throsglwyddo gwybodaeth am y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gan y Senedd.*

### 32. Y BWRDD ACADEMAIDD

#### DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-031).

#### NODWYD

1. Ar 02 Tachwedd 2016, roedd aelodau'r Bwrdd Academaidd wedi argymhell y dylai'r Senedd gymeradwyo diwygiadau i gylch gorchwyl y Bwrdd. Roedd y diwygiadau hyn

yn cael eu cynnig yn bennaf o ganlyniad i benderfyniadau i ddi-ddymu'r Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu, a throsglwyddo'i gyfrifoldebau, gan gynnwys elfennau o'r Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr, i'r Bwrdd Academaidd.

2. Yn yr un cyfarfod, roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried ei amcanion cyflawnadwy allweddol am y flwyddyn academaidd gyfredol, gan gyfeirio at y rhai a nodwyd gan yr is-bwyllgorau academaidd sy'n adrodd i'r Bwrdd. Roedd yr amcanion a gynigiwyd ar gyfer y Bwrdd Academaidd yn cynnwys cynllunio maes llafur ffurfiannol ar gyfer Blwyddyn 1, i'w weithredu ym mlwyddyn academaidd 2018-19.

#### **PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i gylch gorchwyl y Bwrdd Academaidd, yn amodol ar ddiwygio'r frawddeg o dan y pennawd 'Cylch Gorchwyl' fel hyn: "Y Bwrdd Academaidd sy'n gyfrifol am God Ansawdd y DU:" (GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Brifysgol).
4. Cymeradwyo amcanion allweddol y Bwrdd Academaidd ar gyfer blwyddyn academaidd 2016-17, a gwahodd y Bwrdd Academaidd i adolygu'r golofn sail resymegol yn y siart (GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Brifysgol).

### **33. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYNLLUNIO**

#### **DERBYNIWYD**

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1617-032).

#### **NODWYD**

Cafodd yr elfen cofrestriadau myfyrwyr yn yr adroddiad ei gynhyrchu cyn dyddiad y cyfrifiad swyddogol ar 1 Tachwedd 2016 pryd y cofnodir cofrestriadau'r flwyddyn yn swyddogol. Nid oedd felly yn rhoi data gwahanol iawn i'r hyn a gafwyd yn yr adroddiad i'r Senedd yn y cyfarfod diwethaf.

### **34. GRADDAU ER ANRHYDEDD**

#### **DERBYNIWYD**

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-033).

#### **NODWYD**

1. Ar 18 Hydref, cyfarfu'r Pwyllgor Graddau er Anrhydedd i ystyried enwebiadau am Raddau er Anrhydedd PA. Cyflwynwyd 22 o enwebiadau gan staff, myfyrwyr, Cymrodyr Anrhydeddus, ac eraill, am Gymrodoriaethau neu Raddau er Anrhydedd PA. Hefyd, cafodd pedwar enwebiad a ystyriwyd yn wreiddiol ar 22 Hydref 2015 eu hailgyflwyno i'w hystyried ymhellach.

#### **PENDERFYNWYD**

2. Argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r enwebiadau a gynigiwyd am Raddau er Anrhydedd PA, yn amodol ar ddiwygio'r adroddiad (GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Brifysgol):
  1. I gynnwys gwybodaeth gefndirol ychwanegol am y rhai a enwebwyd; ac
  2. I egluro mai graddau Baglor er Anrhydedd yn y Gwyddorau a fyddai'n cael eu dyfarnu i'r rhai sy'n cael eu henwebu am radd Baglor er Anrhydedd.

### 35. YMDYGIAD ACADEMAIDD ANNERBYNIOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion (SEN1617-037).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn rhoi darlun cyffredinol o achosion yn gysylltiedig ag Ymddygiad Academaidd Annerbyniol a archwiliwyd ym mlwyddyn academaidd 2015-16. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Bwrdd Academaidd yn ei gyfarfod ar 2 Tachwedd 2016.

### 36. SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL: LLYTHYR BLYNYDDOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori'r Llythyr Blynyddol am 2015 o Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SEN1617-035).

NODWYD

1. Roedd y llythyr yn amlinellu perfformiad PA o ran y meincnod ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau. Croesawyd yr adroddiad gan yr aelodau fel cadarnhad o drefniadaeth effeithiol y Brifysgol.
2. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Bwrdd Academaidd yn ei gyfarfod ar 2 Tachwedd 2016.

### 37. ADRODDIAD O'R COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

NODWYD

1. Roedd Cangen PA o'r CCC yn cyfrannu at ddatblygu Cynllun Academaidd y CCC ei hun - proses llawer yn fwy cymhleth na'r un yn gysylltiedig â chynhyrchu Cynllun Academaidd cyfrwng Cymraeg PA. Yn rhan o'r trafodaethau hyn, roedd y gangen yn pwysleisio'r angen i CCC gydnabod ymrwymiad parhaus rhai prifysgolion yng Nghymru i ddarparu cyrsiau a ddysgir trwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na sianelu cymorth ariannol yn unig i'r sefydliadau hynny na fyddent fel arall yn buddsoddi mewn darpariaeth o'r fath.
2. Roedd rhai aelodau'n siomedig fod rhai prifysgolion yng Nghymru yn parhau i wrthod gweithredu'n unol â model cydweithrediadol CCC, gan gynnwys rhannu deunydd â phrifysgolion eraill trwy'r CCC.

**PENDERFYNWYD**

3. Y byddai'r Is-Ganghellor Dros Dro yn ysgrifennu at y CCC, gan bwysleisio'r angen i bob prifysgol wneud yr un ymrwymiad i'r CCC a'r bwriadau a welir yn y model cydweithrediadol sy'n sail i ddatblygiad y CCC (**GWEITHREDU**: Is-Ganghellor Dros Dro).

### 38. GRANTIAU YMCHWIL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-037).

NODWYD

Dyfarnwyd nifer o grantiau ymchwil i aelodau staff PA ers cyfarfod diwethaf y Senedd.

### **39. CRYNODEB O'R GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1617-038).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad grynodeb o'r risgiau arwyddocaol o'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

### **40. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys yr adroddiadau canlynol (SEN1617-039):

1. Y Bwrdd Academaidd (02 Tachwedd 2016);
2. Y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (17 Tachwedd 2016);
3. Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (07 Hydref 2016); a'r
4. Pwyllgor Graddau er Anrhydedd (18 Hydref 2016).

NODWYD

5. Y Bwrdd Academaidd (02 Tachwedd 2016);

Cafodd swyddogaeth Pennaeth Adran a'r trefniadau gweinyddol eu hystyried gan y Bwrdd yng nghyd-destun yr archwiliad o'r Athrofa Daearyddiaeth, Hanes, Gwleidyddiaeth a Seicoleg yn ystod 2016-16. Yn hytrach na dod â'r mater gerbron y Senedd i'w ystyried, byddai hyn yn cael ei gyfeirio at Grŵp Gweithredol y Brifysgol yn y lle cyntaf.

6. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r is-bwyllgorau eraill.